



OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

**2014 Rhif 3156 (Cy. 318)**

**2014 No. 3156 (W. 318)**

**Y DIWYDIANT DŴR,  
CYMRU A LLOEGR**

**WATER INDUSTRY,  
ENGLAND AND WALES**

Rheoliadau'r Diwydiant Dŵr  
(Ymgwymerwyr sy'n Gyfan Gwbl  
neu'n Bennaf yng Nghymru)  
(Gwybodaeth am Feddianwyr nad  
ydynt yn Berchenogion) 2014

The Water Industry (Undertakers  
Wholly or Mainly in Wales)  
(Information about Non-owner  
Occupiers) Regulations 2014

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir gan ymgwymerwr y mae ei ardal yng Nghymru yn gyfan gwbl neu'n bennaf.

O dan adran 144C(2) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (p. 56), mae dyletswydd ar berchennog mangre breswyl nad yw'n byw yn y fangre honno i drefnu i'r ymgwymerwr gael gwybodaeth am feddianwyr y fangre. Mae adran 144C(3) o'r Ddeddf honno yn darparu y bydd methiant gan y perchennog i ddarparu'r wybodaeth yn golygu y bydd y perchennog yn atebol gyda'r meddianwyr, ar y cyd ac yn unigol, am ffioedd dŵr a charthffosiaeth.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch yr wybodaeth sydd i gael ei rhoi am y meddianwyr ac am yr amseru a'r weithdrefn sy'n gysylltiedig â darparu'r wybodaeth honno.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations apply in relation to services provided by an undertaker whose area is wholly or mainly in Wales.

Under section 144C(2) of the Water Industry Act 1991 (c.56), an owner of residential premises who does not live in those premises is under a duty to arrange for the undertaker to be given information about the occupiers of the premises. Section 144C(3) of that Act provides that a failure by the owner to provide the information will result in the owner becoming jointly and severally liable with the occupiers for water and sewerage charges.

These Regulations make provision about the information that is to be given about the occupiers and about timing and procedure in connection with the provision of that information.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

**2014 Rhif 3156 (Cy. 318 )**

**Y DIWYDIANT DŴR,  
CYMRU A LLOEGR**

Rheoliadau'r Diwydiant Dŵr  
(Ymgwymerwyr sy'n Gyfan Gwbl  
neu'n Bennaf yng Nghymru)  
(Gwybodaeth am Feddianwyr nad  
ydynt yn Berchenogion) 2014

*Gwnaed* 2 Rhagfyr 2014

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru* 3 Rhagfyr 2014

*Yn dod i rym* 1 Ionawr 2015

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 144C(4) ac 8(b) ac adran 213(2)(f) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991(1) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Diwydiant Dŵr (Ymgwymerwyr sy'n Gyfan Gwbl neu'n Bennaf yng Nghymru) (Gwybodaeth am Feddianwyr nad ydynt yn Berchenogion) 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir gan ymgwymerwr y mae ei ardal yng Nghymru yn gyfan gwbl neu'n bennaf.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ionawr 2015.

---

(1) 1991 p. 56. Mewnosodwyd adran 144C o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 ("Ddeddf 1991") gan adran 45 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p. 29). Mae'r pŵer wedi ei roi gan adran 144C(4) i "the Minister" a ddiffinnir at y dibenion hyn gan adran 144C(8)(b) o Ddeddf 1991. Mae adran 144C(8)(b) o Ddeddf 1991 hefyd yn pennu, at ddiben adran 144C, fod adran 213 yn gymwys gyda chyfeiriadau at yr Ysgrifennydd Gwladol a'r naill Dŷ neu'r llall o Senedd y Deyrnas Unedig yn cael eu hystyried yn gyfeiriadau at Weinidogion Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, yn y drefn honno.

**2014 No. 3156 (W. 318)**

**WATER INDUSTRY,  
ENGLAND AND WALES**

The Water Industry (Undertakers  
Wholly or Mainly in Wales)  
(Information about Non-owner  
Occupiers) Regulations 2014

*Made* 2 December 2014

*Laid before the National Assembly for Wales*  
3 December 2014

*Coming into force* 1 January 2015

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 144C(4) and (8)(b) and section 213(2)(f) of the Water Industry Act 1991(1) make the following Regulations:

**Title, application and commencement**

1.—(1) The title of these Regulations is the Water Industry (Undertakers Wholly or Mainly in Wales) (Information about Non-owner Occupiers) Regulations 2014.

(2) These Regulations apply in relation to services provided by an undertaker whose area is wholly or mainly in Wales.

(3) These Regulations come into force on 1 January 2015.

---

(1) 1991 c.56. Section 144C of the Water Industry Act 1991 ("the 1991 Act") was inserted by section 45 of the Flood and Water Management Act 2010 (c.29). The power is conferred by section 144C(4) on "the Minister", which is defined for these purposes by section 144C(8)(b) of the 1991 Act. Section 144C(8)(b) of the 1991 Act also specifies that for the purpose of section 144C, section 213 is to apply with references to the Secretary of State and either House of Parliament being taken as references to the Welsh Ministers and the National Assembly for Wales respectively.

## Dehongli

### 2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “y diwrnod cychwyn” (“*the commencement day*”) yw’r dyddiad y mae’r ddyletswydd yn gymwys o ganlyniad i erthygl 2 o Orchymyn Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Cychwyn Rhif 9) 2014(1);

ystyr “y ddyletswydd” (“*the duty*”) yw’r ddyletswydd a osodir yn rhinwedd adran 144C(2) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

## Yr wybodaeth sydd i gael ei darparu am feddianwyr nad ydynt yn berchenogion

3.—(1) Mae’r wybodaeth sydd i gael ei rhoi gan y perchennog i’r ymgymerwr am y meddianwyr fel a ganlyn—

- (a) eu henwau llawn;
- (b) eu dyddiadau geni (pan fo’r wybodaeth honno wedi ei darparu i’r perchennog);
- (c) y dyddiad neu’r dyddiadau y dechreuodd y meddianwyr feddiannu’r fangre (os yw’r dyddiad hwnnw ar ôl y dyddiad cychwyn).

(2) Nid yw’r wybodaeth sydd i’w rhoi o dan baragraff (1) yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas ag unrhyw blentyn sy’n meddiannu’r fangre.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn ystyr “plentyn” yw person sydd o dan 18 oed.

## Hysbysu’r meddiannydd nad yw’n berchennog

4. Cyn i berchennog ddarparu gwybodaeth i ymgymerwr, rhaid iddo hysbysu’r meddiannydd y bydd yr wybodaeth honno yn cael ei darparu.

## Amseru

5.—(1) Mae perchennog yn methu â chydymffurfio â’r ddyletswydd os nad yw’r wybodaeth sy’n ofynnol gan reoliad 3(1) yn cael ei rhoi o fewn 21 o ddiwrnodau i—

- (a) y diwrnod cychwyn;
- (b) y dyddiad y mae meddiannydd yn dechrau meddiannu’r fangre.

(2) Mae methiant perchennog yn dod i ben pan fydd yr wybodaeth sy’n ofynnol gan reoliad 3(1) yn cael ei rhoi i’r ymgymerwr (ni waeth a roddir yr wybodaeth gan y perchennog neu gan rywun arall).

## Interpretation

### 2. In these Regulations—

“the commencement day” (“*y diwrnod cychwyn*”) means the date when the duty applies as a result of article 2 of the Flood and Water Management Act 2010 (Commencement No.9) Order 2014(1);

“the duty” (“*y ddyletswydd*”) means the duty imposed by virtue of section 144C(2) of the Water Industry Act 1991.

## Information to be provided about non-owner occupiers

3.—(1) The information to be given to an undertaker by the owner about the occupiers is as follows—

- (a) their full names;
- (b) their dates of birth (where such information has been provided to the owner);
- (c) the date or dates on which the occupiers began to occupy the premises (if that date is after the commencement day).

(2) The information to be given under paragraph (1) does not include information relating to any child that occupies the premises.

(3) For the purpose of this regulation “child” means a person under the age of 18.

## Notifying the non-owner occupier

4. Before an owner provides information to an undertaker they must notify the occupier that such information will be provided.

## Timing

5.—(1) An owner fails to comply with the duty if the information required by regulation 3(1) is not given within 21 days of—

- (a) the commencement day;
- (b) the date on which an occupier begins to occupy the premises.

(2) An owner’s failure ceases when the information required by regulation 3(1) is given to the undertaker (regardless of whether the information is given by the owner or someone else).

---

(1) O.S. 2014/3155 (Cy.317) (C.137)

---

(1) S.I. 2014/3155 (W.317) (C.137)

## Gweithdrefn

6. Rhaid i'r wybodaeth sy'n ofynnol gan reoliad 3(1) gael ei darparu i ymgwymerwr drwy'r post, dros y ffôn, dros e-bost neu drwy'r Porthol Cyfeiriadau Landlordiaid a Thenantiaid yn [www.landlordtap.com](http://www.landlordtap.com).

## Procedure

6. The information required by regulation 3(1) must be provided to an undertaker by post, telephone, email or via the Landlord and Tenant Address Portal at [www.landlordtap.com](http://www.landlordtap.com).

*Carl Sargeant*

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol,  
un o Weinidogion Cymru  
2 Rhagfyr 2014

Minister for Natural Resources,  
one of the Welsh Ministers  
2 December 2014

---

©<sup>©</sup> Hawlfraint y Goron 2014

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

---

© Crown copyright 2014

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

